UNED 1: DARLUNIO BANANAS

Ystod oedran: 7-11 oed

Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn defnyddio lluniau i ymchwilio i daith banana, o'r adeg y mae'r planhigyn yn cael ei blannu yng Ngholombia nes bydd y bananas yn cael eu gwerthu yn y DU. Byddant yn gweithio mewn grŵp i ddechrau i lunio cwestiynau y byddent yn hoffi eu gofyn am lun sy'n dangos un cam o'r daith hon. Anogir y dysgwyr i feddwl am y gwahanol fathau o gwestiynau y gallent eu gofyn a'u trafod, er enghraifft a fyddant yn hawdd ynteu'n anodd eu hateb, neu a yw'r atebion yn debygol o fod yn ffaith ynteu'n farn. Yna bydd y dysgwyr yn ystyried beth allai fod wedi digwydd cyn ac ar ôl y cam sy'n cael ei ddangos yn un o'r lluniau, gan ddefnyddio tystiolaeth sydd yn y llun yn ogystal â gwybodaeth a syniadau sydd ganddynt yn barod. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn cydweithio i roi'r lluniau mewn trefn i ddangos dilyniant cywir gwahanol gamau o'r daith.

Amcanion dysgu
- Gallu llunio cwestiynau am lun a bod yn ymwybodol o rai ffyrdd o gategoreiddio cwestiynau.
- Defnyddio tystiolaeth o lun a gwybodaeth bresennol i ffurfio casgliadau.
- Gwrando ar syniadau pobl eraill ac ymateb iddynt.

Deilliannau dysgu
- Bydd y dysgwyr yn llunio cwestiynau y byddent yn hoffi eu gofyn am lun ac yna'n eu categoreiddio.
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio tystiolaeth weledol a'u gwybodaeth bresennol i ffurfio casgliad ynglŷn â beth allai fod wedi digwydd cyn ac ar ôl y digwyddiadau a welir mewn llun.
- Bydd y dysgwyr yn gweithio gyda dysgwyr eraill mewn grŵp i drafod eu syniadau.

Cwestiynau allweddol
- Pa gwestiynau hoffech chi eu gofyn am y llun hwn?
- Pa rai o'r cwestiynau hyn fydd yn arwain at atebion sy'n ffeithiau a pha rai fydd yn arwain at farn?
- Pa rai o'r cwestiynau hyn fydd yn hawdd eu hateb a pha rai fydd yn anos? Pam yr ydych yn meddwl hyn?
- Sut fyddech chi'n mynd ati i ateb y cwestiynau hyn?
- Beth ydych chi'n meddwl a ddigwyddodd cyn y cam sydd i'w weld yn y llun hwn? Beth allai ddigwydd wedi hynny, yn eich barn chi?

Adnoddau
- Sioe sleidiau *Ewch yn Bananas*: sleidiau 2 i 13
- *Stori'r Fanana: pecyn lluniau*
- Taflen Adnoddau 1: *Lluniau o fananas*
- Taflenni o bapur plaen

Nodyn addysgu pwysig
Gweithgareddau ac adnoddau sy'n cael eu hawgrymu er mwyn cefnogi eich addysgu yn hytrach na'i arwain yw'r rhain. Gall fod angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn. Cymerir yn ganiataol y bydd athrawon yn dewis ymestyn y gweithgareddau mewn uned dros fwy nag un wers.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 1.1 *(25 mun+)*

Amser cwestiynau

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Argraffwch gopïau o'r lluniau yn *Stori'r fanana: pecyn lluniau* a rhowch un llun i bob grŵp.
- Gofynnwch i bob grŵp ludo ei lun ar ganol darn mawr o bapur plaen.
- Eglurwch y dylai'r dysgwyr feddwl am gynifer o gwestiynau ag sy'n bosibl y byddent yn hoffi eu gofyn am eu llun. Anogwch y dysgwyr i feddwl Beth? Pam? Ble? Pryd? Pwy a Sut?
- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu cwestiynau ar y darn mawr o bapur o amgylch y llun. Gallai'r dysgwyr gymryd eu tro i ysgrifennu cwestiwn, neu gallai un dysgwr fod yn ysgrifennydd ar ran y grŵp cyfan.
- Trafodwch y mathau o gwestiynau y meddyliodd y dysgwyr amdanynt. Gallai'r dysgwyr sortio'r cwestiynau i gategorïau yn seiliedig ar wahanol feini prawf. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - *Pa rai o'r cwestiynau hyn fydd yn arwain at atebion sy'n ffeithiau a pha rai fydd yn arwain at farn?*
  - *Pa rai o'r cwestiynau hyn fydd yn hawdd i'w hateb a pha rai fydd yn anos? Pam yr ydych chi'n meddwl hyn?*
  - *Pa rai o'r cwestiynau hyn fydd angen rhagor o wybodaeth o lyfrau neu ffynonellau eraill i'w hateb?*
  - *Pa gwestiwn yw'r un mwyaf diddorol yn eich barn chi a pham?*
  - *Sut fyddech chi'n mynd ati i ateb y cwestiynau hyn?*

Gweithgaredd 1.2 *(60 mun)*

Cyn ac ar ôl

- Eglurwch fod y lluniau y bu'r dysgwyr yn edrych arnynt yng *Ngweithgaredd 1.1* yn dilyn taith banana, o'r adeg y cafodd y planhigyn ei blannu yng Ngholombia nes cafodd y bananas eu gwerthu yn y DU.
- Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Rhowch gopi o un o'r lluniau o *Stori'r fanana: pecyn lluniau* i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar eu llun a phenderfynu beth maent yn meddwl sy'n digwydd ynddo. Anogwch y dysgwyr i feddwl am resymau neu ddod o hyd i dystiolaeth ar gyfer eu syniadau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod yn eu grwpiau beth y maent yn meddwl a ddigwyddodd cyn y cam sydd i'w weld yn y llun hwn, yn ogystal â beth allai ddigwydd ar ôl hynny. Fel o'r blaen, anogwch hwy i feddwl am resymau neu dystiolaeth ar gyfer eu syniadau.
- 'Nawr, dosbarthwch daflenni o bapur plaen a gofynnwch i bob grŵp dynnu dau lun yn dangos y cam y maent hwy'n meddwl sydd wedi digwydd cyn yr hyn sydd i'w weld yn eu llun a'r cam y maent yn meddwl y bydd yn dod ar ôl hynny. Pan fyddant wedi gorffen, dylai'r dysgwyr arddangos eu lluniau fel "llinell amser" gan roi eu llun gwreiddiol yn y canol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon

- Arddangoswch linellau amser y dysgwyr o amgylch y dosbarth a rhowch amser i'r dysgwyr edrych ar waith parau eraill.
- Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r ddealltwriaeth y maent wedi ei chael o'u llinellau amser a'u trafodaethau i weithio fel dosbarth cyfan a gosod eu lluniau gwreiddiol mewn trefn o'r adeg y cafodd y planhigyn ei blannu yng Ngholombia i'r adeg y mae'r bananas yn cael eu gwerthu mewn archfarchnad yn y DU. Neu, gallech roi copi o *Lluniau o fananas* (Taflen adnoddau 1) i bob grŵp a gofyn i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i dorri'r lluniau a'u gosod yn y drefn gywir.
- Gorffennwch trwy rannu trefn gywir y lluniau a'r wybodaeth ategol (gweler sleidiau 2 i 13 yn *Sioe Sleidiau Ewch yn Bananas*).

Syniadau pellach

- Gallech ymestyn *Gweithgaredd 1.1* trwy ofyn i bob grŵp danlinellu un cwestiwn y maent yn meddwl y gallent ei ateb ar ôl gwneud ychydig o ymchwil. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd yn eu grŵp i ateb y cwestiwn hwn. Dylent benderfynu pwy yn eu grŵp fydd yn defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth, er enghraifft llyfrgell y dosbarth, llyfrgell yr ysgol neu'r Rhyngrwyd. Dylai'r grŵp hefyd benderfynu a oes arnynt angen help gan oedolion, ac ystyried pryd y byddant yn cael mynediad at yr adnoddau y mae arnynt eisiau eu defnyddio. Mae hwn yn gyflwyniad da i ddatblygu sgiliau ymchwil annibynnol.
- Gallai'r dysgwyr weithio mewn grwpiau o dri neu bedwar i greu ffrâm fferru i ddangos un o'r camau (lluniau) sydd yn *Stori'r fanana: pecyn lluniau*. Dosbarthwch gopïau o'r lluniau fel bod pob grŵp yn creu ffrâm fferru ar gyfer llun gwahanol. Gwahoddwch bob grŵp i gyflwyno'r ffrâm fferru i weddill y dosbarth. Gofynnwch i ddysgwyr eraill wneud sylwadau ynglŷn â beth y gallant ei weld yn y ffrâm fferru. Defnyddiwch dechneg tracio meddyliau i alluogi gwahanol ddysgwyr yn y ffrâm fferru i gamu y tu allan i'r llun ac egluro sut y maent yn teimlo a pham. Dylai'r meddyliau hyn gael eu disgrifio yn y person cyntaf. Gallech hefyd ofyn i'r dosbarth cyfan wneud "seinwedd" ar gyfer y fframiau fferru. Er enghraifft, gallent greu sŵn dail planhigion bananas yn siffrwd yn y gwynt, sŵn y lorri neu sŵn cefndir pentref neu archfarchnad.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn un o'r lluniau. *Beth y gallent fod yn ei glywed, arogli, gweld a chyffwrdd? Sut y maent yn meddwl y byddent yn teimlo pe baent yno? A fyddent eisiau bod yn y llun? Pam y maent yn meddwl hyn?*
- Mae lluniau yn offeryn gwerthfawr mewn dinasyddiaeth fyd-eang, yn helpu dysgwyr i gryfhau eu sgiliau gofyn cwestiynau, meddwl yn feirniadol a chydweithio; herio rhagdybiaethau a stereoteipiau; meithrin empathi a datblygu parch at eraill. Mae rhagor o syniadau ar gyfer defnyddio lluniau i'w gweld ar wefan Addysg Oxfam (Oxfam Education):
  - www.oxfam.org.uk/education/teacher-support/tools-and-guides/images-and-artefacts
  - www.oxfam.org.uk/education/education-blog/2014/05/ten-tips-for-using-images-for-global-citizenship

Telerau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB / Y Sefydliad Masnach Deg
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y llun hwnnw, ynghyd ag Oxfam a'r Sefydliad Masnach Deg. Ni chewch ddefnyddio'r lluniau na'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r lluniau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Lluniau o fananas

Taflen adnoddau 1

Lluniau gan: Eduardo Martino, Y Sefydliad Masnach Deg, @Kate Fishpool
I gael rhagor o fanylion, gweler *Stori'r fanana: pecyn lluniau*.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon